**Esboniad o bwyntiau Sêr Symud**

**Cerdded/Troelli = 3 phwynt**
Dewiswch yr eicon hwn os ydych chi wedi cerdded neu droelli yr holl ffordd i'r ysgol. Mae'r eicon hwn yn cynnwys disgyblion sy'n cerdded gan ddefnyddio cymhorthion symudedd, gan gynnwys cadeiriau olwyn neu gymhorthion cerdded ag olwynion.

**Beicio = 3 phwynt**
Dewiswch yr eicon hwn os ydych chi wedi beicio yr holl ffordd i'r ysgol.

**Sgwtera/Sglefrio = 3 phwynt**
Dewiswch yr eicon hwn os daethoch chi yr holl ffordd i'r ysgol ar sgwter, bwrdd sgrialu, ac ati.

**Teithio Llesol Arall = 3 phwynt**
Dewiswch hwn ar gyfer unrhyw deithio llesol nad yw'n ffitio i'r categorïau eraill.

**Parcio a Cherdded = 2 bwynt**
Mae parcio a cherdded yn ffordd wych i ddisgyblion sy'n byw yn bell o'r ysgol deithio'n llesol. Parciwch y car o leiaf 10 munud i ffwrdd o'r ysgol a chwblhewch y daith ar droed, mewn cadair olwyn, ar feic neu ar sgwter (mae unrhyw ddull teithio llesol a ddefnyddir i gwblhau'r daith yn cyfrif!).

**Bws = 2 bwynt**
Dewiswch yr eicon hwn os aethoch chi ar y bws (gan gynnwys bws ysgol) i'r ysgol. Os gwnaethoch chi gerdded/troelli, beicio neu sgwtera am 10 munud i'r safle bysiau neu oddi wrtho, dewiswch 'Teithio Llesol Arall' yn lle hynny.

**Trên/Tram = 2 bwynt**
Dewiswch yr eicon hwn os aethoch chi ar drên neu dram i gyrraedd yr ysgol. Os gwnaethoch chi gerdded/troelli, beicio neu sgwtera am 10 munud i'r orsaf drenau/arhosfa dramiau neu oddi wrthi, dewiswch 'Teithio Llesol Arall' yn lle hynny.

**Car = 1 pwynt**
Dewiswch yr eicon hwn os cawsoch eich gyrru yr holl ffordd i'r ysgol mewn cerbyd modur (ac eithrio tacsi).

**Tacsi = 1 pwynt**
Dewiswch yr eicon hwn os ydych chi'n teithio mewn tacsi yr holl ffordd i'r ysgol.

**Cofnodi fel absennol = 1 pwynt**
Dewiswch yr eicon hwn ar gyfer unrhyw ddisgyblion sy'n absennol (ar gyfer pob diwrnod o'u habsenoldeb). Mae'n bwysig bod absenoldebau'n cael eu cofnodi'n gywir er mwyn cyfrifo pwyntiau misol y dosbarth yn deg.

Bydd cofnodi rheolaidd yn ennill pwyntiau bonws i'ch dosbarth! Beth yw eich cyfnod cofnodi (*recording streak*) hiraf? Dim ond unwaith y mis y caiff ei ddyfarnu.

- 3 diwrnod ysgol yn olynol = +5 pwynt
- 5 diwrnod ysgol yn olynol = +10 pwynt
- 10 diwrnod ysgol yn olynol = +25 pwynt
- 15 diwrnod ysgol yn olynol = +40 pwynt
- 20 diwrnod ysgol yn olynol = +60 pwynt

Bydd teithio llesol rheolaidd yn ychwanegu pwyntiau bonws at sgôr Sêr Symud eich dosbarth. Faint o deithiau llesol allwch chi eu gwneud y mis hwn? Caiff ei ddyfarnu fesul disgybl.

- 5 taith lesol y mis = +5 pwynt
- 10 taith lesol y mis = +10 pwynt
- 15 taith lesol y mis = +15 pwynt
- 20 taith lesol y mis = +20 pwynt

Y dosbarth sydd â'r mwyaf o bwyntiau (wedi'u cyfrifo fel pwyntiau fesul disgybl i ystyried gwahanol feintiau dosbarth) ar ddiwedd pob mis sy'n ennill her fisol Sêr Symud ac yn cymryd masgot Strider am y mis nesaf!